

Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Blynyddol 2024/25



Fersiwn Darllen Hawdd

Pwy Ydyn Ni a Beth Ydyn Ni'n ei Wneud



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn rhan o Lywodraeth Cymru.



Mae'n gweithio i wella gofal cymdeithasol i blant, oedolion a gofalwyr ym mhob rhan o Gymru.



Dechreuodd y Swyddfa Genedlaethol ym mis Ebrill 2024.



Rydyn ni'n gweithio gyda chynghorau, darparwyr gofal, a'r bobl.



Byddwn ni'n parhau i wneud mwy wrth i ni dyfu.

Geiriau Anodd Rydyn Ni'n Defnyddio



Gwasanaeth Gofal a Chymorth

Cenedlaethol: Gwasanaeth i wneud gofal yn deg ac o ansawdd uchel i bawb.



Fframwaith Cenedlaethol: Canllaw i sut mae gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.



Cyflog Byw Gwirioneddol: Tâl sy'n ddigon i bobl fyw arno.



Fforwm y Bobl: Grŵp sy'n gwrando ar yr hyn y mae pobl ei eisiau gan wasanaethau gofal.

Beth Wnaethon Ni Y Flwyddyn Yma



Rydyn ni wedi dechrau Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.



Rydyn ni wedi creu ffordd newydd o gasglu data.



Rydyn ni wedi adnewyddu ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru.



Edrychon ni ar y Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol.



Rydyn ni wedi diweddaru rheolau ar gyfer gofal preswyl.

Gweithio Gyda'n Gilydd



Fe wnaethon ni weithio gyda phobl a phartneriaid allweddol i wella gofal.



Rydyn ni'n sefydlu fforymau i glywed gan lawer o bobl wahanol.

Mae Fforwm y Bobl wedi cael ei sefydlu ar gyfer:



- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal
- Gofalwyr a theuluoedd
- Gweithwyr gofal

Mae'r Fforwm Arweinyddiaeth wedi cael ei sefydlu ar gyfer:



- Arweinwyr gofal
- Cyfarwyddwyr gwasanaeth

Fe wnaethon ni gwrdd â llawer o grwpiau hefyd i drafod beth mae'r Swyddfa Genedlaethol yn ei wneud.



Gwneud Gofal yn Well



Rydyn ni wedi sefydlu Fframwaith Cenedlaethol i wella gofal.



Mae hyn yn cynnwys safonau i'w gwneud hi'n symlach i roi gofal.



Rydyn ni hefyd wedi creu pecyn cymorth i helpu cynllunwyr gofal i ddilyn y safonau hyn.



Rydyn ni'n disgwyl i ofal gael ei roi yn fwy cyson.



Rydyn ni wedi dechrau gweithio ar system newydd i wirio gwasanaethau gofal.

Talu am Ofal



Fe wnaethon ni edrych ar sut i wneud y gofal y mae pobl yn talu amdano yn fwy teg ac yn fwy cyson.



Rydyn ni eisiau creu proses apelio ffurfiol i'w gwneud hi'n fwy teg.



Mae hyn yn golygu efallai y bydd newidiadau i'r rheolau ar gyfer gofal.



Fe wnaethon ni roi mwy o arian i gynghorau hefyd i wneud yn siŵr bod gofal yn fforddiadwy.



Rydyn ni hefyd wedi dechrau edrych ar sut i wneud gofal am ddim ar y pwynt defnyddio.

Cynlluniau Ar Gyfer y Flwyddyn Nesaf

Cam 1

Byddwn ni'n gorffen cam cyntf adeiladu ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.



Byddwn ni'n lansio Fforwm y Bobl i wrando ar fwy o bobl.



Byddwn ni'n parhau i wella sut mae gofal yn cael ei gynllunio a'i ariannu.



Byddwn ni'n canolbwyntio ar arloesi digidol a brwydro yn erbyn newid hinsawdd.



Byddwn ni'n sicrhau bod gofal yn deg i bawb.



Cafodd y fersiwn darllen hawdd hwn ei greu gan.
Planet Easy Read.



Rydyn ni'n defnyddio Ffotosymbolau.